Hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu'r gofynion wrth i chi hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae hyn yn cynnwys datblygu a chynnal trefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol ag eraill yn eich gweithle ac yn allanol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio ag eraill i adnabod cynlluniau gweithredu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys manylion ei nodau, beth fydd yn digwydd, pwy sy'n gyfrifol am wneud beth ac erbyn pryd
2. gweithio ag eraill i gytuno ar ddulliau o fonitro, adolygu a gwerthuso cynnydd gweithio mewn partneriaeth
3. hybu ffyrdd o weithio sy'n annog perthnasoedd effeithiol, cyfranogiad, dealltwriaeth a pharch at eraill
4. hybu gwerthoedd, ymddygiad a pholisïau'r gweithle
5. cyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau rydych chi wedi cytuno arnynt wrth weithio mewn partneriaeth
6. cael gafael ar wybodaeth ac adnoddau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
7. cyfrannu at y broses o fonitro, adolygu a gwerthuso gweithio mewn partneriaeth, a chynorthwyo eraill i wneud hynny
8. adnabod manteision a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth ag eraill
9. rhannu gwybodaeth ag eraill yn unol â'r gofynion gweithio mewn partneriaeth y cytunwyd arnynt
10. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwrpas gweithio mewn partneriaeth ag eraill
2. rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth weithio mewn partneriaeth
3. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill
4. sut mae datblygu cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill, a pham
5. systemau cyfathrebu eich gweithle ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ag eraill
6. effaith strwythur, diwylliant, cefndir a phrosesau'r gweithle ar weithio mewn partneriaeth yn fewnol ac yn allanol
7. sut mae cyfrannu at fonitro, adolygu a gwerthuso gweithio mewn partneriaeth ag eraill, a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth
8. sut mae adnabod arferion gorau a'r newidiadau sydd eu hangen wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill
9. y ffactorau a allai effeithio ar weithio mewn partneriaeth
10. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar weithio mewn partneriaeth ag eraill
11. sut mae ymateb i wrthdaro buddiannau, materion a phryderon wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill
12. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill
13. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill
14. sut y gellir defnyddio technoleg ddigidol wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill
15. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill
16. theorïau sy'n berthnasol i weithio mewn partneriaeth ag eraill
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill
18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill
19. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill, a sut i fynd i'r afael â hyn
20. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio mewn

partneriaeth ag eraill

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hybu gweithio mewn partneriaeth ag eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD329 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithio mewn Partneriaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |